# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 2

CYNLLUNIAU FFIOEDD A MYNEDIAD

*Cymeradwyo etc cynllun ffioedd a mynediad*

### 7 Cymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad

(1) Os gwneir cais i CCAUC i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad o dan adran 2, rhaid i CCAUC drwy roi hysbysiad i'r corff llywodraethu o dan sylw naill ai—

(a) cymeradwyo'r cynllun, neu

(b) gwrthod y cynllun.

(2) Ond ni chaiff CCAUC gymeradwyo cynllun oni bai ei fod wedi ei fodloni bod y sefydliad y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef o fewn adran 2(3).

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan CCAUC wrth wneud unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad â chymeradwyo neu wrthod cynllun o dan yr adran hon.

(4) At ddibenion y Ddeddf hon, y cyfnod pan fo cynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad ac sydd wedi ei gymeradwyo o dan yr adran hon mewn grym yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y'i cymeradwyir o dan yr adran hon, ac sy'n dod i ben ar ba un bynnag o'r canlynol sydd gynharaf—

(a) y diwrnod y daw'r cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef i ben;

(b) os caiff cymeradwyaeth CCAUC i'r cynllun ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad a roddir o dan adran 38 neu 39, dyddiad yr hysbysiad.

(5) Yn y Ddeddf hon—

(a) mae cyfeiriadau at gynllun a gymeradwywyd yn gyfeiriadau at gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad sydd wedi ei gymeradwyo o dan yr adran hon ac sydd mewn grym ar hyn o bryd;

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) mae cyfeiriadau at sefydliad rheoleiddiedig yn gyfeiriadau at sefydliad y mae cynllun a gymeradwywyd yn ymwneud ag ef (ond gweler adrannau 26 a 27(8)).

(6) Mae’r adran hon yn ddarostyngedig i adran 37(5) (peidio â chymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad newydd).

(7) Am y ddarpariaeth weithdrefnol ynghylch hysbysiad o dan is-adran (1)(b), gweler adrannau 41 i 44.

**8 Cyhoeddi cynllun a gymeradwywyd**

(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig gyhoeddi cynllun y sefydliad a gymeradwywyd.

(2) Mae’r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut a phryd y mae cynllun i’w gyhoeddi.

**9 Amrywio cynllun a gymeradwywyd**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy’n caniatáu i gorff llywodraethu sefydliad rheoleiddiedig amrywio cynllun y sefydliad a gymeradwywyd.

(2) Rhaid i’r rheoliadau ddarparu mai dim ond os caiff amrywiad ei gymeradwyo gan CCAUC y mae i gymryd effaith.

(3) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwneud ceisiadau am gymeradwyaeth i amrywiad a phenderfynu ar y ceisiadau hynny.